

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun y 3ydd o Dachwedd 2025 am 7.30yh yng Nghanolfan Gymunedol Alma.

Cynghorwyr yn bresennol: Alyson Harries (Cadeirydd), Andrew Jones, Ambrose Lewis, Linda Davies, Dyfed Davies, Arwyn Jones, Derrick Harries, John Phillips, Ann Sillars & Eirian Howells

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Y CYnghorydd Sir Jean Lewis
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Diolchodd Alyson Harries i bawb am fynychu ar noson mor stormus.
3. **Datgan Buddiannau:**
Dim.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 1af o Fedi 2025 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.

5. Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:

- Roedd Cyfreithwyr Redkite wedi ebostio i gadarnhau fod perchnogion Lleine wedi gofyn am gyngor cyfreithiool parthed y trac i Rhoscrugebolion ac y byddent yn cyfrafod gyda'r cyfreithwyr yr wythnos yn dechrau y 3/11/25. Byddai Redkite yn dilyn y mater I fyny os na fydd ymateb wedi ei dderbyn diwedd yr wythnos canlynol.
- Nid oedd cais am symud y bin newydd i'r postyn agosaf at Clynfelyn wedi cael ei gyflawni ac byddai'r Cynghorydd Sir Jean Lewis yn dilyn hyn i fyny.
- Roedd preswilydd wedi cysylltu gyda chynghorydd yn gofyn a byddai'n bosib iddo dorri y coed a pedd wedi cwmpo ar draws llwybr Clynfelyn. Nodwyd mae cyfrifoldeb y Cyngor Sir oedd i gynnal y llwybr ac os byddai preswylwyr yn mynd ati, mi fyddai ar risg eu hunain. Byddai difridoldeb y mater yn cael ei ail-gyfleu i Adran Cynnal a Chadw Y Cyngor Sir.
- Nid oedd y gwaith atgyweirio ar rhiw Glaspant wedi cael ei ddechrau a nodwyd pryder ymhellach am y diogelwch. Cynigwyd od goleuadau traffig dros dro yn cael eu rhoi yno er diogelwch. Byddai'r clerc yn gofyn y Cynghorydd Sir i gyfleu'r pryder i'r Adran Priffyrdd.
- Nid oedd y gwaith na'r marciau ar cyffordd Felindre wedi ei gwneud, nac y gwaith atgyweirio yn CASTellmawr. Byddai'r clerc yn danfon y wybodaeth i'r CYnghorydd Sir Jean Lewis.
- Roedd y clerc wedi ymweld â Elen a Dylan Bowen parthed ysgythru cadwyn y cadeirydd. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd I ofyn iddynt ymwneud a'r gwaith.
- Roedd y clerc wedi ebostio perchenog Closygawnen ond nid oedd wedi derbyn ymateb. Cytunwyd i gysylltu gyda'r Cyngor Sir yn nodi pryder diogelwch priffyrdd ac y droedffordd oherwydd gordyfiant.

6. Gohebiaeth

- a. Roedd aelodaeth ICO wedi ei adnewyddu yn awtomatig.
- b. Dosbarthwyd rhestr cyrsiau hyfforddiant.
- c. Roedd manylion heolydd ar gau wedi cael eu danfon ymlaen i bawb ac roedd y clerc wedi ymgeisio eu nodi ar 'Facebook'.
- Ch. Cais Cynllunio PL/09780 – Digwylfa, Meidrim – roedd wedi ei ebostio i bawb.
- d. Roedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir parthed difrod a achoswyd i gar ger mynedfa Ysgol Hafodwenog. Nid oedd y clipiau ar y llawr wedi eu tynnu oddi yno ers i'r biniau ailgylchu adael ac felly roeddent yn peri pryder diogelwch.
- dd. Darlennodd y clerc yr ebost a dderbyniwyd wrth 'Trafnidiaeth i bawb' yn gofyn am wirfoddolwyr.

7.Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £1,050.84

8. Unrhyw Fater Arall

- Byddai'r Cinio blynyddol ar y 17eg o Ionawr.
- Cynigwyd fod y Cyngor Cymuned yn derbyn dros y cyfrifoldeb ac y lês am Barc a Cae chwarae Trelech wrth Canolfan Gymunedol Trelech. Gofynwyd i'r clerc edrych i mewn iddo ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.
- Nodwyd cyflwr gwael yr heol o'r Ficerdy i Man Iwan ac fod angen ei ail-wynebu.
- Roedd y gordyfiant o'r clawdd ger Blaenffos, Penybont ar y ffordd i Penybont yn peri pryder diogelwch ac byddai'r clerc yn ysgrifennu at y perchnogion.
- Roedd ymyl y ffordd wedi rhoi ger Capel Ffynnonbedr ac wedi cael ei adrodd i'r Cyngor Sir ond nid oedd gwaith atgyweirio wedi digwydd. Gofynir i'r Cynghorydd Sir dilyn i fyny ar hyn.
- Roedd perchnogion Clunblewog wedi bod yn cadw'r droedffordd o Clunblewog i Henfeddau ar agor am flynyddau, ond roedd bellach yn ormod o waith a gofynir i'r adran cynnal a chadw troedffyrdd ei gynnal.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 8.35yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 5ed o Ionawr 2026..